# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 18 Hydref 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Cyflwyno Treth Fusnes Atodol yng Nghymru

**C9 Alun Cairns:** Gyda phwy y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymgynghori am y cynigion i gyflwyno treth fusnes atodol yng Nghymru? (OAQ13003)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i chi i gwestiwn 4 (OAQ13040) yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

### Modelau Llywodraethu Arfaethedig

**C10 Jonathan Morgan:** A oes yn rhaid i gynghorau lleol ymgynghori â'u trigolion ar y modelau llywodraethu arfaethedig a bennwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000? (OAQ13001)

**Edwina Hart:** Oes. Mae'n ofynnol, yn ôl Adran 25(2) y Ddeddf honno, i'r awdurdodau lleol ymgynghori â'u cymunedau, ac â grwpiau eraill sydd â diddordeb, ynglŷn â'r pedwar dewis o strwythurau rheoli gwleidyddol newydd.

### Cytundebau Perfformiad Llywodraeth Leol

**C11 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am gytundebau perfformiad llywodraeth leol? (OAQ12996)

**Edwina Hart:** Yn ddiweddar fe orffennais broses ymgynghori ar brotocolau gwerthuso cytundebau polisïau. Yr oedd yr atebion yn gadarnhaol yn gyffredinol.

Mae fy mwriad yw sicrhau bod y cytundebau polisïau sy'n barod i'w llofnodi ar waith erbyn diwedd y mis hwn, a bydd hynny'n arwydd bod y don gyntaf o grantiau cymell perfformiad wedi'i rhyddhau i'r awdurdodau.

Bydd fy swyddogion yn cydweithio â'r ychydig o awdurdodau nad yw eu cytundebau polisïau yn barod i'w llofnodi er mwyn sicrhau y byddant yn barod cyn hir.

### Cyfle Cyfartal Mewn Llywodraeth Leol

**C12 Mick Bates:** Pa gynnydd a wneir o ran sicrhau ymdriniaeth gyson â chyfle cyfartal mewn llywodraeth leol? (OAQ12992)

**Edwina Hart:** Mis Medi, cyhoeddodd arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod safon gyfartaledd gyffredinol i lywodraeth leol wedi'i datblygu mewn partneriaeth â'r cyrff cyfartaledd

statudol. Fis Mehefin, cyhoeddais fod grant £800,000 yn cael ei roi i CLlLC, iddi allu sefydlu uned gyfartaledd i gynghori'r awdurdodau lleol ynglŷn â gweithredu'r safon honno, yn ogystal â rhoi cyngor i'r Cynulliad am gyfle cyfartal mewn polisïau llywodraeth leol.

### Cynlluniau Rheoli Asedau

**C13 Janet Ryder:** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i lywodraeth leol ar ddatblygu cynlluniau rheoli asedau? (OAQ12977)

**Edwina Hart:** Yr oedd swyddogion y Cynulliad yn aelodau ar gyd-weithgor a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a luniodd canllawiau i lywodraeth leol ar ddatblygu cynlluniau rheoli asedau, a gyhoeddwyd mewn cynhadledd ar 13 Medi 2001. Rhoddais sêl fy mendith ar y canllawiau a gyhoeddwyd.

### Rôl Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

**C14 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl cynghorau cymuned a chynghorau tref yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ12998)

**Edwina Hart:** Mae cynghorau cymuned a thref yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau i bobl leol a'u cymunedau, a'u cynrychioli. Cyn hir byddaf yn comisiynu ymchwil i'w swyddogaethau a fydd yn ystyried pob agwedd ar weithredoedd cynghorau cymuned a thref. Fy mwriad yw y bydd hynny'n sail i bolisi'r Cynulliad ar gynghorau cymuned a thref yn y dyfodol.

### Trefniadau Etholiadol

**C15 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am waith y comisiwn ar drefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru? (OAQ12979)

**Edwina Hart:** Corff annibynnol yw'r comisiwn ac ni ddisgwyliaf gael adroddiadau dros dro ynglŷn â'r cynnydd y mae wedi'i wneud tuag at gyflawni ei gylch gwaith. Serch hynny, caf ar ddeall i'r comisiwn gynnal cyfarfodydd ar 25 Mehefin a 28 Medi, iddo gymryd tystiolaeth lafar gan sawl corff a sefydliad ar 22 a 23 Hydref ac y bydd, cyn hir, yn cychwyn ar gyfres o ymweliadau ag awdurdodau unigol. Gofynnais i'r comisiwn roi adroddiad erbyn diwedd Mehefin 2002.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Mynediad Pobl Anabl i Wasanaethau Trafnidiaeth

**C7 Peter Black:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog â gweithredwyr trafnidiaeth ledled Cymru ynghylch sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad pobl anabl i'w gwasanaethau? (OAQ12964) [R]

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Yr wyf wedi cyfarfod â chwmnïau'r rheilffyrdd a Chyd-ffederasiwn Cludiant Teithwyr. Trafodasom amrywiaeth o faterion, gan gynnwys anghenion teithwyr anabl. Yr wyf yn falch bod cynnydd yn cael ei wneud wrth gyflwyno bysiau â lloriau isel, er enghraifft. Mae'r gwaith y mae'r awdurdodau lleol yn ei wneud ar y seilwaith yn hwyluso pethau, ond erys llawer i'w wneud o hyd.

### Gwasanaethau Bysiau yng Nghymru

**C8 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymrwymiad y weinyddiaeth i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr bysiau yn ddibynadwy ac yn effeithiol ym mhob rhan o Gymru? (OAQ13033)

**Sue Essex:** Yr ydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau i ddarparu gwasanaethau o'r safon orau bosib ledled Cymru. Caf ar ddeall bod problemau recriwtio a chadw gyrwyr bysiau wedi effeithio ar ddibynadwyedd y gwasanaethau yn Nhor-faen a'r cylch, ond bod y sefyllfa honno wedi gwella yn sylweddol. Pwysleisiaf nad Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am reoli bysiau.

### Diogelwch Llosgi Gwastraff

**C9 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba mor ddiogel yw llosgi gwastraff? (OAQ12956)

**Sue Essex:** Dylem drefnu bod ein gwastraff yn gwneud lleied o niwed i iechyd pobl a'r amgylchedd ag y bo modd, ac mae rheoliadau ar waith. Mae hyn yn ymwneud ag ailgylchu, gwneud gwrtaith, troi gwastraff yn ynni (gan gynnwys drwy losgi) a thirlenwi. Nid oes modd ymdrin â gwastraff heb risg.

### Diogelu Henebion Hanesyddol a Safleoedd Archeolegol

**C10 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd diogelu henebion hanesyddol a safleoedd archeolegol yng Nghymru? (OAQ13042)

**Sue Essex:** Adnoddau cyfyngedig nad oes modd eu hadnewyddu yw gweddillion archeolegol a hanesyddol. Mae'r rhai sydd o bwys cenedlaethol yn cael eu cofrestru. Mae hynny'n eu diogelu yn statudol ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sydd am weithio ar y safle gael caniatâd y Cynulliad ymlaen llaw, ac yn ei gwneud yn drosedd i weithio ar y safle heb ganiatâd. Drwy Cadw, mae'r Cynulliad hefyd yn cefnogi amrywiaeth o raglenni sy'n anelu at ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys rhoi grantiau ac ariannu ymddiriedolaethau archeolegol Cymru.

### Masnachfraint Sengl ar Gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau

**C11 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'i chymheiriaid yn San Steffan ynghylch dyfarnu masnachfraint sengl ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau? (OAQ13017)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi trafod â John Spellar, y Gweinidog dros Drafnidiaeth yn yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, ynglŷn â rhoi masnachfraint sengl i Gymru. Yr wyf hefyd wedi pwysleisio mor bwysig yw hyn wrth Stephen Byers, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.

### Arolwg o'r Tomenni Glo yng Nghymru

**C12 Brian Gibbons:** Oes cynlluniau gan y Gweinidog i gynnal arolwg o'r tomenni glo yng Nghymru y mae dal angen gwaith adfer arnynt? (OAQ12954)

**Sue Essex:** Awdurdodau lleol yw'r cyrff sy'n gyfrifol am sicrhau bod tomenni glo nas defnyddir bellach yn sad. Trefnais seminar am sadrwydd tomenni gydag aelodau a swyddogion awdurdodau lleol ym mis Mawrth i drafod eu cyfrifoldebau o ran gwaith adfer tomenni, ac i roi canllawiau iddynt.

### Gwella Tagfeydd Traffig ar Bont Menai

**C13 Peter Rogers:** A oes cynigion ar gyfer gwella tagfeydd traffig ar bont Menai yn cael eu hystyried ar hyn o bryd? (OAQ13018)

**Sue Essex:** Nag oes. Bernir y bydd pontydd Britannia a Menai yn darparu cyswllt digonol i'r traffig y rhagwelir y bydd yn teithio i Fôn yn y dyfodol.

### Datblygu'r Rhwydwaith Rheilffyrdd i Deithwyr

**C14 Peter Law:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddatblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd i deithwyr ledled Cymru? (OAQ12965)

**Peter Law:** Yr ydym wedi sicrhau bod y rheilffyrdd yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu ein polisi trafnidiaeth integredig, sy'n pwysleisio mor bwysig yw darparu trafnidiaeth i bobl na ddarperir ar eu cyfer yn ddigonol ar hyn o bryd, ac mor bwysig yw annog newid ffyrdd o deithio. Cyhoeddais raglen bum-mlynedd o gymorth i drafnidiaeth awdurdodau lleol fis Ionawr diwethaf, a oedd yn cynnwys buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau rheilffyrdd, gan gynnwys gwella Rheilffyrdd y Cymoedd, ailagor rheilffordd Bro Morgannwg i deithwyr, a'r rheilffordd Cambrian. Yr wyf hefyd wedi cefnogi egwyddor agor y rheilffordd i Lynebwy i deithwyr.

**Cais i Adeiladu Llosgydd Gwastraff yn Crymlyn Burrows**

**C15 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd y cais i adeiladu llosgydd gwastraff yn Crymlyn Burrows? (OAQ12957)

**Sue Essex:** Caf ar ddeall bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn disgwyl y bydd modd penderfynu ar y cais cyn hir.